

# Rheoli Clefydau Ffrwythau Perthi

## TAFLEN GWYBODAETH

Gall cyrens, eirin Mair a llus fod yn ychwanegiadau pwysig at unrhyw fusnes ffrwythau meddal, ond mae rhaid rheoli plâu a chlefydau'n effeithlon er mwyn cael y gorau o'ch planhigion. Mae natur goedaidd barhaol y cnydau hyn yn golygu y gall plâu sy'n goroesi'r gaeaf greu problemau o un flwyddyn i'r llall, felly rhaid bod yn wiliadwrus iawn wrth fonitro ac wrth reoli rhag i'r broblem fynd yn ormod. Mae'r canllaw hwn yn crynhoi'r prif feysydd lle ceir problemau â chnydau perthi, ond os oes arnoch angen cyngor ar reoli plâu/clefydau, dylech siarad ag ymgynghorydd sydd â chymhwyster BASIS.

Yn ddiweddar, mae AHDB wedi rhyddhau dogfen o'r enw Bush Fruit Crop Walker's Guide, a all fod yn ddefnyddiol o ran adnabod ystod eang o blâu a chlefydau mewn ffrwythau perthi ac mae'n cynnwys ystod eang o ffotograffau. Gellir cael gafael arno [ar-lein yma](#).

### Tocio

Gall tocio effeithiol gael effaith sylweddol ar reoli plâu a chlefydau mewn ffrwythau perthi. Dylech fynd ati i docio ddiwedd yr hydref/gaeaf, pan fydd y perthi'n segur ar ôl colli eu dail, a bydd tocio da yn gwella ansawdd y berth a chnwd y flwyddyn nesaf. Pan fyddwch yn tocio, dylech geisio cael gwared ar unrhyw ganghennau isel sy'n debygol o gyffwrdd y ddaear pan fyddant dan bwysau ffrwythau, gan y bydd y ffrwythau hyn yn debygol o aeddfedu'n arafach ac o ddioddef Botrytis. Dylid culhau perthi er mwyn i olau gyrraedd y canol, ac i ganiatáu mynediad da rhwng perthi (ar gyfer chwistrellu a chynaeafu) i atal difrod. Dylech ganolbwyntio ar dynnu hen bren, ac ar annog pren newydd i dyfu. Dylech hefyd anelu at dynnu blagur ochrol yn ystod cynhyrchu arferol er mwyn ei gwneud yn haws i chwynnu ar ôl cynaeafu.

### Plâu Cyffredin

Gwiddon Chwyddi Cyrens Duon – Gwiddon llai na 0.25mm o hyd sy'n bwydo ac yn epilio o fewn y blagur, gan achosi "Blagur Mawr" nodweddiadol (ar y dde). Bydd blagur sydd â'r pla yn dechrau chwyddo yn yr haf, a bydd gwiddon yn dod i'r golwg yn y gwanwyn i chwilio am flagur newydd. Gall gwiddon chwyddi hefyd drosglwyddo'r firws dychwelyd cyrens duon – mae hwn yn achosi i'r berth droi'n ôl i'w ffurf "wyllt", gyda blagur blodau porffor-goch a dail gyda llai o wythiennau a godreion/gwead mwy garw (llun ar y dde isod), a bydd planhigion sydd wedi cael eu heintio'n cynhyrchu llai o gnwd o lawer. Unwaith y bydd wedi'i heintio, bydd y firws yn ymledu drwy'r berth gyfan ac felly mae'n bwysig monitro a thocio unrhyw ganghennau sydd wedi'u heintio. Dylid amseru chwistrelliadau sylffwr i gyd-fynd â'r blagur yn agor. Mae gan AHDB adnodd sy'n rhagweld pryd fyddant yn ymddangos, a dylid amseru chwistrelliadau i ddigwydd yn union cyn iddyn nhw ddod i'r golwg:

<https://horticulture.ahdb.org.uk/blackcurrant-gall-mite-emergence-charts>



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



Mae rhai mathau yn sensitif iawn i sylffwr, felly rhaid bod yn ofalus a pheidio'i chwistrellu yn agos at y cyfnod blodeuo. Mae Batavia (EAMU 1054/19) bellach wedi'i gymeradwyo ar gyfer ei ddefnyddio yn dilyn cynaeafu yn ystod y cyfnod tyfu.

### Llyslau

Mae amrywiaeth o rywogaethau o lyslau yn targedu ffrwythau perthi (e.e. llaethysgall-cyrens, llyslau eirin Mair, neu lyslau pothellog). Dylech ystyried chwistrellu llyslau ddiwedd mis Medi, gan y gall fod yn fwy effeithlon i wneud bryd hynny yn hytrach na'r gwanwyn, ac mae'n osgoi gadael gweddillion cemegol yn y ffrwythau. Mae EAMU o ran defnyddio asidau brasterog (Flipper; EAMU 3418/19) a lambda-cyhalothrin (Hallmark gyda Thechnoleg Zeon; EAMU 3752/06), er y dylid cymryd gofal er mwyn osgoi'r cyfnod blodeuo wrth eu chwistrellu. Dylech gymryd gofal wrth fonitro planhigfeydd sydd wrthi'n sefydlu, pan all llyslau wneud difrod sylweddol sy'n lleihau twf; edrychwch ar y blaenau'n rheolaidd rhag ofn fod llyslau wedi ymsefydlu yno, yn enwedig yng nghanol y berth. Gellir defnyddio Spirotetramat (Batavia; EAMU 1054/19) ar gyrens ond dim ond ar ôl cynaeafu.

### Lindys

Mae plâu o lindys yn gyffredin ar ffrwythau perthi yn y gwanwyn, pan fo'r tywydd yn cynhesu eto. Gellir canfod lindys gwyfynod brychan y gaeaf a thortrix ar flaenau brigau ac ar flodau llus, ac ym mlagur cynnar a blodau rhywogaethau cyrens ac eirin Mair. Dylech edrych ar flagur a deiliach sy'n datblygu i chwilio am ddarnau bach o faw a sidan, gan eu bod arwyddion cynnar o bresenoldeb lindys cyn y daw'r difrod "tyllau saethu" nodweddiadol a wna lindys mwy i'r golwg. Gellir rheoli Brychan y Gaeaf (ar y dde yn y llun) a Thortrics ar gyrens duon gyda spinosad (Tracer; EAMU 1203/18) neu chloratraniliprole (Coragen; EAMU 1087/15) cyn blodeuo.



### Llifbryf

Bydd lindys â streipiau melyn yn ymosod ar ddail cyrens ac eirin Mair, yn enwedig yng nghanol perthi lle gallant fod yn anodd eu gweld. Bydd lindys y llifbryf yn diddeilio perthi'n gyflym os na chânt eu rheoli, felly mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu monitro mewn cynydau sydd â hanes o gael plâu. Gellir rheoli llifbryf mewn cyrens ac eirin Mair gyda deltamethrin (Decis; Protech 16160/19). Mae'r llifbryf yn tueddu i effeithio ar eirin Mair yn enwedig.

### Gwiddon Gwinwydd

Mae'r rhain yn effeithio ar lus mewn potiau ac ar blanhigfeydd o gyrens duon a llus sydd wrthi'n ymsefydlu. Bydd y gwiddon aeddfed yn ymddangos yn y gwanwyn, gan fwydo ar ddail a chreu bylchau ar odreon dail. Mae'r larfâu sy'n deor o'r wyau'r gwiddon aeddfed yn bwydo ar wreiddiau planhigion, a gall hynny wanhau'r perthi'n arw pan fyddan nhw wrthi'n sefydlu. Targedu'r larfâu yw'r ffordd fwyaf effeithiol o'u rheoli. Digon hawdd yw defnyddio pibelli diferu neu ddrensh i gyflwyno nematodau fel *Steinernema krausei* neu *Heterorhabditis bacteriophora*. Edrychwch ar daflen y gwneuthurwr i bennu'r gyfradd angenrheidiol ar gyfer pob sefyllfa, gan y bydd yn amrywio yn ôl maint y pot. Sicrhewch fod unrhyw hidlyddion yn cael eu tynnu cyn defnyddio'r nematodau, a bod yr hylif yn cael ei ysgwyd drwy'r amser rhag iddo wahanu.



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



### Gwiddon Coch Dau Smotyn

Bydd y gwiddon hyn yn treulio'r gaeaf ar weddillion organig neu chwyn, ond byddant yn dod i'r amlwg ac yn dodwy wyau ar ddeiliach newydd yn y gwanwyn. Bydd pla fel arfer yn dechrau ganol yr haf, wedi i'r ffrwythau sefydlu. Gall planhigion sydd heb dyfu llawer o ganlyniad i ormod o nitrogen arwain at boblogaethau gwiddon uwch, ac mae planhigion ifanc yn fwy tebygol o gael eu heffeithio. Mae'r gwiddon yn bwydo ar sudd dail, gan arwain at wanhau a chwymp cynnar y dail, gan leihau maint ac ansawdd y ffrwyth y tymor canlynol. Gellir cael rhywfaint o reolaeth ar berthi cyrens duon trwy ddefnyddio Botanigard, FLIPPER a Spruzit.



### Ymwadiad

Ymdrechir yn deg i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a gynnigir yn y nodiadau hyn. Bob tro y byddwch yn defnyddio cemegion diogelu cynydau, dylech wneud hynny yn unol â'r argymhellion sydd wedi'u nodi ar y label, a dylech ddarllen yr argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion ar labeli ar gyfer eu defnyddio ar gnydau ffrwythau perthi, ond maent yn cael eu caniatáu drwy'r Estyniad o Ganiatâd ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan 'The Revised Long Term Arrangements For Extension Of Use (2002)'. Yn yr achosion hyn, defnyddir y plaladdwr yn ôl risg y defnyddiwr ei hun, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Rhaid i dyfwyr fod wedi darllen yr EAMU sy'n gysylltiedig â phlaladdwr cyn ei ddefnyddio, a rhaid iddynt gadw copi electronig neu gopi galed o'r EAMU ar gofnod. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr ar ffrwythau perthi yn gywir ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan gynghorydd sydd â chymhwyster gan BASIS.

### Darparwyd y cynnwys gan ADAS



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

